

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan www.eglwysibroaled.com (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Mae Ysgol Sul wedi ailgychwyn ar ZOOM ar fore Sul am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwys Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

ADNODDAU ERAILL

- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
 - **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- Cewch adnoddau eraill ar wefan www.gair.cymru ac ar wefan www.holi-cymru.org.

LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur datliad arbennig.

BUGEILIO

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd, ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydych chi'n dymuno'n ffonio ni.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 20 Medi 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Tybed pryd oedd y tro diwethaf i chi brofi siom, a beth achosodd hynny? Fel arfer, rydym yn teimlo'n siomedig pan mae realiti'r hyn sydd wedi digwydd yn wahanol iawn i'n disgwyliadau ni. Felly wrth geisio delio â siomedigaeth fawr, byddwn yn aml yn cwestiynu ein disgwyliadau ohonom ein hunain ac o bobl eraill. Ydyn nhw'n ddisgwyliadau realistig neu ydym ni'n gofyn gormod gan bobl neu sefydliadau?

A beth am ein disgwyliadau ni o Dduw? Oes gennym ni ddarlun cywir o bwy yw Duw a sut y bydd yn gweithredu? Yn amlach na pheidio rydym yn tueddu i feddwl bod Duw yn debyg i ni, ond y fersiwn orau ohonom ni – ond ydi hynny'n wir? Yn ei drugaredd mae Duw wedi dweud wrthym pwy ydyw trwy ei Air, ac mae wedi dangos hynny'n glir trwy ei Fab, Iesu Grist. O'r ffynhonnell ddibynadwy hon y dylai ein disgwyliadau o Dduw gael eu ffurfio a'u hail-asesu ddydd ar ôl dydd. Ac wrth droi at y Beibl yn gyson i gael y darlun cywir hwn o Dduw, fe gawn ein synnu a'n rhyfeddu!

Beth am i ni droi at Eiseia 55 fel enghraifft. Yn adnod 8 mae'r Arglwydd yn dweud: "Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i".

Byddwn yn aml yn defnyddio'r adnod hon i egluro rhagluniaeth Duw a'i arglwyddiaeth dros amgylchiadau a sefyllfaoedd nad ydym ni'n gallu gwneud pen na chynffon ohonynt. Ac er y gwirionedd yn hynny, nid dyna ffocws Eiseia 55. Yn hytrach, mae Duw yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddo â ni yn syth ar ôl iddo roi gwahoddiad hael i'w bobl ddychwelyd ato! Sylwch ar yr adnodau cynt (6-7):

'Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth.'

Rydym ni'n aml yn dal dig yn erbyn pobl sydd wedi'n brifo, ac yn gallu bod yn oer iawn yn ein perthynas ag eraill nad ydym yn siŵr ohonynt. Ond nid felly mae'r Arglwydd Dduw, diolch byth, mae Ef yn dra gwahanol i ni! Dim ond i ni edifarhau a cheisio'r Arglwydd bydd Ei ymateb yn gwneud i ni ryfeddu. Bydd yn trugarhau ac mae'n barod iawn i faddau (Eiseia 55:7 Beibl.net) Ac yn Iesu Grist yr ydym yn gweld hynny'n gwbl amlwg – yr un oedd yn barod i farw dros ei elynion er mwyn ein cymodi â Duw. (Rhufeiniaid 5:10)

Wrth i ni wynebu cyfnod pellach o ansicrwydd, beth am i ni edrych o'r newydd ar bwy yn union yw'r Arglwydd, a gofyn am gymorth yr Ysbryd i ymateb i Grist mewn ffydd. Ac wrth i ni wneud hynny gallwn foli a diolch i Dduw nad yw Ef na'i ffyrdd yn debyg i'n rhai ni.

Rhodri

Oedfa FYW ar y We

Bore Sul, Medi 27ain, am 10:30, bwriadwn gynnal oedfa fyw ar y we. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled fel arfer.) Bydd darlledu'n fyw yn rhoi cyfle i ni weld sut allwn ddatblygu ein darpariaeth i chi ar gyfer y tymor nesaf hwn ac i adnabod unrhyw drafferthion technegol all hynny ei olygu i chi ac i ninnau oherwydd y diffyg band eang cyflym a dibynadwy sydd mewn rhai ardaloedd ym Mro Aled. **Os cewch fwy o drafferth nag arfer i weld a chlywed yr oedfa y bore hwnnw, plis wnewch chi adael i ni wybod?** Byddwn yn parhau, fel arfer, i ddarparu DVDs, CDs a chopi papur o'r gwasanaeth i bawb sy'n dymuno copi.

Sgwrs ar ZOOM

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. Bydd y manylion i ymuno â ZOOM yn cael ei ebostio i bawb sy'n derbyn Llais Bro Aled y diwrnod cynt (26ain). Os bydd unrhyw un arall eisiau'r manylion, anfonwch neges i Mair, os gwelwch yn dda.

Cwrs Alfa i'r Ifanc

Mi fydd Eglwysi Bro Aled a Bro Dinbych yn rhedeg Cwrs Alfa i'r Ifanc (www.alpha.org/youth) yn lle CIC tan y Nadolig. Bydd y cwrs yn gyfle i bobl ifanc (oed uwchradd) gael amser i sgwrsio, cymdeithasu a gofyn cwestiynau am fywyd, y Beibl, Iesu ac unrhyw beth arall! Bydd y cyfarfod dros ZOOM, a bydd o leiaf dau arweinydd yn bresennol gyda'r ieuencid. Os hoffech ymuno hefo ni, ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled lle medr rhiant neu ofalwr lenwi ffurflen ar-lein ar eich rhan er mwyn cofrestru. Gallwn ninnau wedyn anfon rhagor o wybodaeth i chi dros ebost.

Cofion a Chyfarchion

Parhawn i gofio am Betty Evans (Llansannan) ac Edna Evans (Llanfair) sy'n cael gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy i ofal Duw, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Anfonwn ein cofion hefyd at Nesta Wyn Davies (Cefn Meiriadog) yn dilyn ei llawdriniaeth. Gweddïwn y bydd yn cael ei gwarchod a'i chynnal dros y dyddiau nesaf ac y caiff adferiad iechyd llwyr a buan. Bu'n rhaid i Dylan Roberts (Henllan) hefyd dreulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato yntau ac at eraill o'n plith sydd wedi bod yn yr ysbyty neu heb fod cystal eu hiechyd yn ddiweddar. Dymunwn yn dda hefyd i'r rhai sy'n aros llawdriniaethau a chodwn hwy yn ein gweddïau. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal Duw a gweddïwn y byddant yn adnabod Ei ddaioni yn eu hamgylchynu.

Âr cyfyngiadau yma'n parhau, anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan); a Mrs Mair Williams (Llansannan). Er medru cael sgwrs ffôn, mae'n chwith mawr peidio cael mynd i ymweld â nhw. Cyflwynwn y tair i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwynfor Pritchard (Llansannan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (30^{ain}), os gwelwch yn dda.